CYNGOR GWYNEDD

PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH




# CANLLAWIAU GWNEUD CAIS PRENTISIAETHAU 2026



CYNGOR GWYNEDD















# Y BROSES RECRIWTIO

**Cam 1**
Paratoi

**Cam 2**
Profiadau

**Cam 3**
Y Ffurflen Gais

**Cam 4**
Canolfan Recriwtio

## PARATOI

- Mai'n syniad da i chdi ymchwilio i'r Cyngor cyn trio
- Be am i chdi feddwl am un brawddeg sy'n crynhoi pam wyt ti eisiau ymgeisio
- Be am i chdi rhestru dy gryfderau - mi nei di synnu gweld be alli di ei gynnig

## PROFIADAU

- Cofia nodi dy brofiadau sy'n cyd-fynd efo'r hyn 'dani'n chwilio amdano
- Defnyddia amryw o brofiadau sydd yn rhoi'r trosolwg gorau o dy sgiliau
- Os nad wyt ti'n siŵr be i'w gynnwys, hola ffrind, neu unigolyn sydd yn dy adnabod yn dda am gyngor a syniadau

## Y FFURFLEN GAIS

- Cofia ddarllen y canllawiau cyn llenwi dy gais
- Cymera ofal efo'r iaith, a chofia ail-ddarllen y cais cyn cyflwyno

## Y GANOLFAN RECRIWTIO

- Cofia wneud yn siŵr fod gen ti amryw o brofiadau i'w trafod ar y diwrnod
- Cofia mai dyma ydi dy gyfle i ddangos dy sgiliau a dy botensial
- A cofia fwy na dim, bydd yn chdi dy hun, a mwynha'r diwrnod

# CANLLAW CYFLWYNO CAIS

## I GYCHWYN

**Mae'n bwysig fod dy gais yn canolbwyntio ar y wybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd ac wedi ei gyflwyno'n gryno ac eglur.**

- Ddyle ti edrych yn ofalus ar y **Manylion Person** i wneud yn siwr fod dy gais yn ateb y gofynion
- Mae'r manylion am y Person yn restr o sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i wneud y swydd yn dda
- Wrth gwblhau'r rhan **Gwybodaeth Bellach** yn dy gais am swydd, mi fyddwn yn gofyn i chdi ateb cwestiynau penodol sy'n dilyn y strwythur

## COFIWCH

1. Cofia ddefnyddio engreifftiau o dy waith cynt, profiadau ti wedi cael drwy'r ysgol neu goleg, profiadau gwaith, hobïau neu/a gwaith gwirfoddol ti wedi ei wneud

2. Gan fod cyfathrebu a cywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg yn bwysig, fysan well i chdi gwblhau'r ffurflen yn y Gymraeg.

3. Mae dilyn y strwythur a'r canllawiau yn fanteisiol i dy gais


4. Pan wyt ti'n disgrifio dy enghreifftiau, dylet ti nodi y pethau yma:

   **Sgiliau** – Yr hyn yr wyt ti yn gallu ei wneud
   
   **Cryfderau** – Y sgiliau yr wyt ti'n ei wneud orau
   
   **Profiadau** – Yr hyn yr ywt ti wedi'i wneud sy'n dangos yr uchod

CYNGOR GWYNEDD







# CREU CAIS EFFEITHIOL

## PWYNTIAU PWYSIG

- COFIA - Bydd dilyn y strwythur isod yn fanteisiol i dy gais
- Gan fod cywirdeb iaith yn y Gymraeg yn bwysig, well i ti gwblhau'r ffurflen yn Gymraeg
- Yn dy enghreifftiau, dylet ti fanylu ar beth wnes di a'r effaith
- Paid ac ysgrifennu mwy na 150 o eiriau i bob un o'r pwyntiau

## STRWYTHUR

**1. PAM YMGEISIO AR GYFER Y BRENTISIAETH YMA?**
Mae angen egluro pam wyt ti wedi ymgeisio am y brentisiaeth yma'n benodol. Cofia sôn am dy ddiddordeb yn y maes a pham bod chdi'n trio.

**2. YMDDYGIAD AC AGWEDD CYWIR**
Mae angen i chdi ddisgrifio un digwyddiad sy'n dangos pan wnes di ymddwyn yn addas neu yn bositif i sefyllfa – e.e. dangos parch, agwedd bositif

**3. YMRWYMO I WAITH NEU BROSIECT**
Mae angen i chdi ddisgrifio un digwyddiad sy'n dangos pan wnes di gyfrannu at dasg neu prosiect e.e. gwaith prosiect yn yr ysgol neu yn y coleg

**5. GWEITHIO FEL RHAN O DÎM**
Mae angen i chdi ddisgrifio un digwyddiad sy'n dangos chdi'n gweithio yn effeithiol fel rhan o dîm

**6. CYFATHREBU EFO HYDER**
Mae angen i chdi ddisgrifio un digwyddiad sy'n dangos bod chdi'n cyfathrebu'n hyderus ar lafar neu'n ysgrifenedig gydag unigoliyn neu grŵp

**7. BOD YN BAROD I DDYSGU**
Mae angen i chdi ddisgrifio un digwyddiad sy'n dangos bod chdi'n barod i ddysgu neu pan wnes di ddysgu rhywbeth pwysig

**8. DEALL BETH SYDD EI ANGEN I WEITHIO I'R CYNGOR**
Mae angen i chdi egluro pam dy fod di eisiau gyrfa efo'r Cyngor

# CREU CAIS EFFEITHIOL

I lenwi ffurflen gais effeithiol be am ddefnyddio'r dull PREP?

## P

### PWYNT

Dechrau drwy ateb y cwestiwn: “Rwy'n credu bod...”

*Rwy'n credu mai un o fy mhrif gryfderau yw fy sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig.*

## R

### RHESWM

Yna rho eglurhad: “A'r rheswm pam rwy'n credu hynny yw...”

*Rwy'n credu hyn gan fy mod yn gallu strwythuro fy atebion yn glir ar bapur ac am fy mod yn cymryd amser i lunio fy ateb cyn ei gofnodi.*

## E

### ENGHRAIFFT

Rho enghraifft sy'n cefnogi : “Er enghraifft, wythnos diwethaf...”

*Er enghraifft, llwyddais i berswadio fy nghyngor ysgol fod angen gwisg newydd ar ein tîm pêl droed drwy ysgrifennu llythyr atynt.*

## P

### PWYNT

Gorffen drwy grynhoi dy bwynt: “A dyna pam rwy'n credu bod...”

*Credaf fod hyn yn enghraifft dda o sut rydw i wedi llwyddo gan ddefnyddio fy sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig.*

CYNGOR GWYNEDD










# I ORFFEN

## AM FWY O WYBODAETH

www.instagram.com/prentiscg

www.facebook.com/prentiscg

@TalentGwynedd

prentisiaethau@gwynedd.llyw.cymru

www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

## BETH NESAF?

1. Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol i ddeall mwy am y Cynllun Prentisiaethau a graddedigion
2. Gwnewch ymchwil i mewn i'r Cyngor ac i'r swydd
3. Agorwch gyfrif ar Wefan Swyddi y Cyngor
4. Dilynwch y Canllawiau Cais. Os hoffech gefnogaeth wrth ysgrifennu eich cais cysylltwch hefo  Gwaith Gwynedd ar: 01286 679211 neu mi fedrwch chi e-bostio gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru
5. Cofiwch am y dyddiad cau 29/05/26

Gobeithio bod y wybodaeth yn y pecyn wedi eich ysbrydoli i geisio am y swydd

Gwnewch y dewis doeth ar gyfer eich dyfodol

Dewiswch yrfa gyda Chyngor Gwynedd

**POB LWC !**